Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022.** |
| **DYDDIAD** | **27 Ebrill 2022** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

Bydd aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ceisiwyd cytundeb gan Jacob Rees-Mogg AS, Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(1) a (2), 4(1)(c) a (d), a 5(1) o Ddeddf Masnach 2021.

Mae'r OS yn diwygio;

- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016

Er mwyn gweithredu, mewn deddfwriaeth ddomestig, rwymedigaeth caffael y Deyrnas Unedig a gwmpesir gan y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy (Cytundeb EFTA).

Gellir gweld yr Offeryn Statudol yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2022/9780348234534